OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2830

# Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2014

**Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â dwyn adrannau 94 a 97 i rym yng Nghymru**

**3.** Mewn perthynas â dwyn adrannau 94 a 97 (sail absoliwt ar gyfer meddiannu) i rym yng Nghymru, ni fodlonir amod 5 yn adran 84A(7) o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac amod 5 yn Sail 7A o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988(**2**) ond pan gaiff y drosedd o dan—

(a) adran 80(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**) (torri hysbysiad atal mewn perthynas â niwsans statudol), neu

(b) adran 82(8) o'r Ddeddf honno (torri gorchymyn llys i atal niwsans statudol ac ati),

ei chyflawni gan y tenant, neu berson sy'n preswylio yn y tŷ annedd neu'n ymweld ag ef, ar 20 Hydref 2014, neu wedi hynny.

(**1**) 1985 p. 68. Mae adran 84A wedi ei mewnosod yn rhagolygol gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

(**2**) 1988 p. 50. Mae Sail 7A o Ran 1 o Atodlen 2 wedi ei mewnosod yn rhagolygol gan adran 97(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

(**3**) 1990 p. 43.